



**Undeb
Myfyrwyr**
PCYDDS

Llawlyfr Cynrychiolwyr Cwrs

2020-2021



CYNRYCHIOLWYR CWRS
COURSE REPS

Rhest Wirio ar gyfer Cynrychiolwyr Cwrs Newydd

Nawr eich bod wedi'ch ethol yn Gynrychiolydd Cwrs, byddwch chi am gychwyn yn eich rôl newydd. Dyma rai pethau y dylech chi eu gwneud i ddechrau:



Dylech greu cyfrif ar ein gwefan **UWTSDUnion.co.uk**

Byddwn yn poblogi ein gwefan â chynnwys defnyddiol i chi. Byddwch hefyd yn gallu Cyflwyno a Phleidleisio dros Syniadau Mawr, platform lle gallwch chi wneud argymhellion a llywio cyfeiriad gwaith eich Undeb Myfyrwyr. Cadwch ein tudalen o fewn cyrraedd!



Mynychwch sesiynau hyfforddi **yn bersonol ac ar-lein.**

Mae eich hyfforddiant ar gyfer bod yn Gynrychiolydd Cwrs yn orfodol, a bydd yn eich darparu â'r wybodaeth y bydd ei hangen arnoch i ffynnu yn eich rôl newydd. Bydd yn gyfle gwyh i gwrdd â Chynrychiolwyr Cwrs eraill ac aelodau o dîm Undeb y Myfyrwyr, yn ogystal â rhoi cyfle i chi ofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych i ni.



Darllenwch eich Llawlyfr **Cynrychiolwyr Cwrs.**

Bydd hon yn ffynhonnell wybodaeth hanfodol, y gallwch chi droi ati wrth i chi ymwneud â'ch rôl trwy gydol y flwyddyn academaidd. Mae'n cynnwys llawer o adnoddau defnyddiol a chysylltiadau allweddol i'ch helpu chi i lwyddo.



Byddwch yn **weladwy.**

Cyflwynwch eich hun i'ch cyd-fyfyrwyr! Dywedwch wrthynt am eich rôl, eich amcanion ar gyfer y flwyddyn, a sut y gallwch chi helpu i wella eu profiad o fod yn fyfyrwyr.



Mae'n bwysig **paratoi.**

Cysylltwch â Chyfarwyddwr eich Rhaglen i gael manylion am unrhyw Bwyllgorau Staff-Myfyrwyr neu weithgareddau eraill y gallwch chi gymryd rhan ynddynt. Nodwch y rhain yn eich calendr, fel y bydd gennych chi ddigon o amser a hyblygrwydd i gwrdd â myfyrwyr eraill ar eich cwrs a pharatoi ar gyfer cyfarfodydd.



Cadwch gofnod o'r hyn rydych **chi'n ei gyflawni.**

Fel Cynrychiolydd Cwrs byddwch yn cael cyfle i ddylanwadu a gwneud newidiadau cadarnhaol fydd yn effeithio ar eich carfan o fyfyrwyr. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n cadw cofnod o unrhyw fuddugoliaethau - mawr neu fach. Rydym yn awyddus i glywed amdanynt fel y gallwn ddathlu eich llwyddiannau gyda chymuned ehangach y Brifysgol.




Cyflwynwch a phleidleisiwch ar **Syniadau Mawr!**

Os oes gennych chi syniad ac yr hoffech i Undeb y Myfyrwyr fynd ati i'w weithredu, cyflwynwch ef fel Syniad Mawr ar ein gwefan. Bydd myfyrwyr eraill yn gallu eich cefnogi chi a gall ddod yn bolisi:
www.uwtsdunion.co.uk/big-ideas



Cadwch mewn cysylltiad â ni a **gofynnwch am help pan fydd ei** **angen arnoch.**

Rydym ni yma bob amser ac yn barod i wrando arnoch chi. Os ydych yn ansicr a ddylech chi godi unrhyw fater, os ydych chi eisiau cyngor, neu os oes gennych chi adborth am eich rôl, mae croeso i chi gysylltu â ni ar unrhyw adeg trwy e-bostio
union@uwtsd.ac.uk.

A photograph of a young woman with long brown hair and a young man with dark curly hair and glasses, both smiling and looking at a laptop screen. The woman is on the left, and the man is on the right. The background is a blurred chalkboard.


Beth yw Cynrychiolydd Cwrs?

Mae Llais y Myfyriwr wrth galon popeth rydyn ni'n wneud, ac mae Cynrychiolwyr Cwrs yn rhan annatod o'n hymagweddiad at bartneriaeth, sydd â'r nod o gynnwys hyn mewn llunio penderfyniadau ar bob lefel yn PCyDDS. Mae adborth yn amhrisiadwy o ran gwella profiad myfyrwyr yn PCyDDS, ac mae eich rôl fel Cynrychiolydd Cwrs yn un o'r pwysicaf wrth sicrhau bod barn a phrofiadau myfyrwyr yn cael eu clywed.

Fel Cynrychiolydd Cwrs, eich rôl fydd canfod beth mae myfyrwyr ar eich cwrs yn ei feddwl, ac yna cynrychioli eu barn. Byddwch yn gyswllt hanfodol a gwerthfawr rhwng myfyrwyr, y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr, gan wasanaethu fel cyfrwng ar gyfer llais myfyrwyr ar Bwyllgorau Staff-Myfyrwyr a chwarae rhan annatod mewn prosesau ansawdd fel Adolygiadau Blyneddol o Raglenni ac adolygiadau ar lefel Athrofa. Byddwch hefyd yn darparu adborth ar bob agwedd o'r profiad addysgol i Undeb y Myfyrwyr, fel y gallwch chi gyfoethogi a llywio cyfeiriad ein gwaith.

Er mai cynrychiolwyr myfyrwyr yw Cynrychiolwyr Cwrs, er mwyn i'n system fod yn effeithiol, mae gan staff academiaidd rôl i'w chwarae mewn sicrhau bod cynrychiolwyr yn cael eu hethol ar gyfer pob cwrs. Er mwyn i chi gael syniad o ble rydych chi'n ffitio i mewn, rydyn ni wedi dadansoddi'r disgwyliadau ar gyfer eich rôl fel Cynrychiolydd, yr UM a'r Brifysgol.

Rôl Cynrychiolydd Cwrs



Hyrwyddo eich rôl a'ch cyfrifoldebau ymysg eraill ar eich cwrs, fel eich bod yn dod yn wyneb cyfeillgar ac yn bwynt cyswllt i unrhyw un sydd ag adborth i'r Brifysgol.

Ymgynghori â myfyrwyr ar faterion yn ymwneud â'u profiadau academiaidd, yn ogystal â chanfod beth yw eu barn am bethau fel adborth ac asesu, strwythur cyrsiau, dysgu ac addysgu.

Cynrychioli barn myfyrwyr mewn Pwyllgorau Staff-Myfyrwyr, Adolygiadau Blynyddol o Raglenni ac adolygiadau ar lefel Athrofa lle bo hynny'n berthnasol.

Trosglwyddo canlyniadau cyfarfodydd i fyfyrwyr ar eich cwrs, er mwyn sicrhau eu bod yn cael gwybod sut mae eu hadborth yn cael ei weithredu.

Lle bo angen, cyfeirio myfyrwyr at wasanaethau mwy priodol o fewn y Brifysgol neu'r UM, fel eu bod yn derbyn cymorth effeithiol.

Ymgysylltu'n weithredol â Chynrychiolwyr Llais Myfyrwyr trwy sianelu tueddiadau ehangach o ran adborth myfyrwyr atyn nhw.

Er mwyn ffynnu a mwynhau eich rôl fel Cynrychiolydd Cwrs, mae'n bwysig eich bod chi'n:

Ymgymryd â hyfforddiant gorfodol sy'n cael ei gynnal gan Undeb y Myfyrwyr.

Ymgysylltu â gwasanaethau'r Brifysgol a'r UM er mwyn i chi allu atgyfeirio materion mwy cymhleth.

Mynychu cyfarfodydd anffurfiol a gynhelir gan Undeb y Myfyrwyr a Chynrychiolwyr Llais Myfyrwyr (megis sesiynau Darnau Diddorol).

Cadw mewn cysylltiad ag Undeb y Myfyrwyr, i adrodd ar gynnydd ac unrhyw feysydd lle mae angen cymorth ychwanegol arnoch. Helpwch ni i'ch helpu chi.

Rôl Undeb y Myfyrwyr

Rôl Undeb y Myfyrwyr yw rhoi cymorth i chi yn eich rôl fel Cynrychiolydd Cwrs. Rydyn ni yma fel pwynt cyswllt i chi trwy gydol eich amser fel cynrychiolydd, i ateb unrhyw gwestiynau neu bryderon sydd gennych chi, ac i'ch grymuso yn eich rôl. Rydyn ni yma i roi cymorth i chi trwy hyfforddiant, eich helpu chi i hyrwyddo'ch rôl, a'ch cynorthwyo chi i godi materion lle'r ydych chi'n ansicr ynghylch sut i weithredu.

Rôl y Brifysgol

Rôl y Brifysgol yw rhoi cyfleoedd i chi roi adborth am eich profiadau, e.e. trwy drefnu Pwyllgorau Staff-Myfyrwyr. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod gweithgaredd llais myfyrwyr wedi'i wreiddio ym mhob agwedd o'i chynlluniau, ac i gydnabod ei bwysigrwydd fel rhan o wella profiad y myfyriwr. Mae gan y Brifysgol rôl hefyd wrth greu diwylliant cynhwysfawr a chynhwysol lle cewch gyfle i godi syniadau a materion, a lle mae barn myfyrwyr yn cael ei thrin â pharch.

A young man and woman are sitting at a wooden table, looking at a laptop screen. The woman is smiling broadly and holding a blue mug. The man is looking down at the laptop. The background is a white brick wall.

Sut i fod yn Gynrychiolydd Cwrs

Nawr eich bod chi'n gwybod ychydig mwy am rôl Cynrychiolydd Cwrs, a sut y cewch chi gefnogaeth gan y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr, byddwch chi eisiau rhai awgrymiadau a chynghor ar sut i gyflawni'ch rôl yn effeithiol.

Cofiwch eich bod wedi cael eich ethol yn Gynrychiolydd Cwrs gan eich cyfoedion i weithredu a siarad ar ran myfyrwyr ar eich rhaglen astudio. Eich rôl chi yw darganfod beth yw barn myfyrwyr ar eich cwrs am eu profiadau academiaidd, a throsglwyddo'r wybodaeth honno i'r Brifysgol fel y gall wneud newidiadau cadarnhaol. Mae'n bwysig yn ystod eich amser fel Cynrychiolydd Cwrs nad ydych chi ond yn mynegi eich barn eich hun neu ond yn cynrychioli barn eich ffrindiau. Dylech fynd ati i ymgysylltu, holi barn a chynrychioli eich grŵp yn ei gyfanrwydd, hyd yn oed os yw hyn yn golygu nad ydych chi o reidrwydd yn cytuno â'r farn rydych chi'n ei chyflwyno. Cofiwch, os ydych chi byth yn ansicr neu'n anghyfforddus wrth gyflwyno adborth myfyrwyr, y gallwch chi gysylltu ag un o'n Cydlynwyr Llais ac Eiriolaeth Myfyrwyr i gael cyngor.

Yn ansicr ynghylch sut i hyrwyddo'ch hun?

Dyma rai syniadau i'ch helpu chi i ddechrau:

Gofynnwch i'ch darlithwyr a allwch chi wneud cyhoeddiadau yn y dosbarth.

Defnyddiwch y cyfle hwn i gyflwyno'ch hun i'ch cyfoedion, gan amlinellu'ch rôl a sut y gall myfyrwyr gysylltu â chi. Ar ôl i chi setlo i'ch rôl, gallwch wneud hyn cyn unrhyw Bwyllgorau Staff-Myfyrwyr sydd ar y gorwel i'ch helpu chi i baratoi.

Gofynnwch am gael rhoi eich manylion cyswllt ar hysbysfyrdau eich cwrs neu ar fforymau ar Moodle.

Siaradwch yn uniongyrchol â myfyrwyr gymaint â phosibl.

Sgwrsio â myfyrwyr ar eich cwrs yw'r ffordd fwyaf effeithiol i ganfod eu barn a dangos iddyn nhw eich bod chi wedi ymrwymo i'ch rôl. Gallech chi hyd yn oed ystyried trefnu sesiynau 'galw heibio', lle'r ydych chi'n gwahodd myfyrwyr i ymuno â chi am baned rhwng darlithoedd.

Defnyddiwch Undeb y Myfyrwyr!

Rydyn ni yma i gynnig cymorth i chi trwy gydol eich amser fel Cynrychiolydd Cwrs. Siaradwch â staff yr UM os oes gennych chi syniad ar gyfer hybu ymgysylltiad â'ch cyfoedion, a byddwn yn eich helpu i drefnu hynny.

Ystyriwch ysgrifennu blog ar gyfer gwefan Undeb y Myfyrwyr.

Rhannwch eich straeon am lwyddiant er mwyn amlygu eich proffil fel cynrychiolydd. www.UWTSDUnion.co.uk/articles

Cofiwch, po fwyaf y byddwch chi'n ymgysylltu â myfyrwyr a'u hadborth, gorau oll fydd eich dealltwriaeth ohonyn nhw. Gall bod â dealltwriaeth gadarn o'u barn roi hyder i chi wrth fynd ati i'w cynrychioli.

Yn ansicr ynghylch sut i ddatrys problemau?

Peidiwch â chynhyrfu - rydyn ni yma i roi cymaint o help a chefnogaeth ag sydd eu hangen arnoch chi. Dylai eich hyfforddiant Cynrychiolydd Cwrs eich darparu â'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i ddatrys materion yn effeithiol, ond gellir datrys y mwyafrif o broblemau yn y ffyrdd canlynol:

Mater sy'n effeithio ar fyfyrwyr ar eich cwrs.

Os yw'n fater brys, mae'n well peidio ag aros tan eich Pwyllgor Staff-Myfyrwyr nesaf i godi pryderon. Dylech ddelio â materion sy'n sensitif o ran amseru trwy fynd â nhw'n uniongyrchol at dîm eich rhaglen. Os nad ydych yn teimlo'n gyfforddus wrth wneud hyn, gallwch ofyn i'r UM am gefnogaeth.

Os daw mater at eich sylw nad yw'n sensitif o ran amseru, ond mae'n dal i fod yn ddarn pwysig o adborth, casglwch y ffeithiau ynghyd, a chyflwynwch y mater i'ch Pwyllgor Staff-Myfyrwyr nesaf. Mantais hyn yw y bydd yn cael ei glywed, ac felly dylai'r Brifysgol fynd i'r afael â'r mater sydd dan sylw.

Mater sy'n effeithio ar fyfyrwyr ar draws y Brifysgol

Os codir materion gyda chi sydd hefyd yn effeithio ar fyfyrwyr y tu allan i'ch rhaglen, y peth gorau i'w wneud yw dwyn y mater i sylw eich Swyddogion Sabothol a'ch Cynrychiolwyr Llais Myfyrwyr, fel eu bod nhw'n ymwybodol o'r adborth. Byddant yn gallu codi'r pryderon hyn yn un o bwyllgorau priodol y Brifysgol, lle caiff materion lefel uchel eu trafod.

Mater yn ymwneud ag aelodau staff unigol.

Mae'n bwysig mewn unrhyw gyfarfod lle gofynnir i chi roi adborth, nad ydych yn enwi nac yn beirniadu'n gyhoeddus aelodau unigol o staff na myfyrwyr. Os daw myfyriwr atoch gyda phryderon am aelod staff unigol, mae'n well bob amser ceisio cyngor gan Undeb y Myfyrwyr. Gallwn helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn yn sensitif ac yn synhwyrol. Siaradwch ag un o'n Cydlynwyr Llais ac Eiriolaeth Myfyrwyr.

Ffiniau eich rôl

Fel Cynrychiolydd Cwrs, efallai y gwelwch weithiau y bydd myfyrwyr yn teimlo'n fwy cyfforddus i fynd atoch chi gyda phroblemau nag at staff y Brifysgol neu'r UM. Mae'n bosib y byddwch chi ar adegau'n ansicr ynghylch

sut i fynd i'r afael â'r materion hyn, ac mae'n bwysig eich bod yn glir o ran yr hyn y gallwch ac na allwch ei wneud i helpu gyda'r sefyllfa.

Gallwch chi helpu gyda'r canlynol

Yn fras, byddwch yn bwynt cyswllt ar gyfer unrhyw faterion ar lefel cwrs. Defnyddiwch yr adnoddau yn y llawlyfr hwn i'ch helpu i gadw cofnod manwl o'r materion hyn. Gall materion gynnwys:

- Adnoddau astudio (megis argaeledd llyfrau, labordai cyfrifiadurol, benthyg gliniaduron, adnoddau llyfrgell, cynnwys wedi'i uwchlwytho i Moodle)
- Materion cwricwlwm a chynnwys cyrsiau.
- Cyfathrebu rhwng staff y Brifysgol, Undeb y Myfyrwyr a myfyrwyr.
- Materion amserlennu.
- Pryderon ynghylch lleoliadau gwaith.
- Costau cudd ar gyrsiau nad yw'r Brifysgol efallai yn ymwybodol ohonynt.
- Materion yn ymwneud â strwythur cyrsiau (er enghraifft, addysgu bloc, dosbarthu gwaith).
- Asesiadau a therfynau amser.
- Dulliau ac adnoddau addysgu.
- Hygyrchedd.

Ni allwch chi helpu gyda'r canlynol

Dylech bob amser atgyfeirio pan fydd myfyrwyr eisiau trafod unrhyw un o'r materion canlynol gyda chi:

- Pryderon yn ymwneud â lles.
- Cwynion ffurfiol.
- Achosion myfyrwyr unigol, e.e. honiadau o gamymddwyn academiaidd, camymddwyn anacademaidd, apeliadau, amgylchiadau esgusodol.
- Honiadau o aflonyddu neu fwlio.
- Perfformiad myfyrwyr unigol.
- Cwynion yn erbyn aelodau staff.

Cofiwch ei bod yn iawn peidio â gwybod yr holl atebion. Bydd myfyrwyr eraill ar eich cwrs yn gwerthfawrogi'r ffaith eich bod chi yno fel pwynt cyswllt cyntaf, hyd yn oed os nad ydych chi'n gwybod sut i'w helpu. Cysylltwch â ni yn Undeb y Myfyrwyr, a byddwn yn eich helpu chi. Fel arall, mae desg gymorth Hwb yn wasanaeth rhagorol os ydych chi'n chwilio am bwynt cyswllt yn y Brifysgol i'ch cynorthwyo chi i atgyfeirio myfyriwr.

Gwerthoedd a Blaenoriaethau Undeb UMyDDS

Yn UMyDDS, rydym yn falch o'n gweithgareddau sy'n helpu i amlygu a chryfhau eich llais.

Ein blaenoriaethau yw:

- 1 Cryfhau eich dylanwad dros benderfyniadau sy'n effeithio arnoch chi
- 2 Sicrhau eich bod yn deall eich hawliau a bod cymorth ar gael pan fydd ei angen arnoch.
- 3 Buddsoddi mewn gweithgareddau a chyfleoedd i'ch galluogi i ddatblygu eich sgiliau.
- 4 Ymgyrchu dros gymdeithas decach a mwy cynhwysol.
- 5 Ei gwneud yn hawdd i chi gyfarwyddo ein gwaith a'n hadnoddau.

Ein Gwerthoedd yw:

- 1 Dylai addysg gael ei llunio gan fyfyrwyr.
- 2 Mae mwy i brofiad yn y Brifysgol nag ennill gradd.
- 3 Dylai gweithgareddau a gwasanaethau'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr fod yn hygyrch i bawb.
- 4 Mae angen herio anghydraddoldeb.
- 5 Mae arweinyddiaeth myfyrwyr yn bwysig:.

Cysylltiadau Allweddol

Undeb y Myfyrwyr

Swyddogion Sabothol

Llywydd Campws Caerfyrddin

Georgia Thomas
georgia.thomas@uwtsd.ac.uk

Llywydd Campws Llambled

Tammy Bowie
tammy.bowie@uwtsd.ac.uk

Llywydd y Grŵp

James Mills
james.mills@uwtsd.ac.uk

Cydlynwyr Llais ac Eiriolaeth Myfyrwyr

Ffion Davies
ffion.davies@uwtsd.ac.uk

Euan Morrison
ewan.morrison@uwtsd.ac.uk

Cynorthwywyr Ymgysylltu â Myfyrwyr

Abertawe

Andrew Jones
andrew.g.jones@uwtsd.ac.uk

Caerdydd, Llundain a Birmingham

Rebecca Crane
rebecca.crane@uwtsd.ac.uk

Caerfyrddin

Laura Yates
laura.yates@uwtsd.ac.uk

Llambled

Laura-Cait Driscoll
laura-cait.driscoll@uwtsd.ac.uk

Cynrychiolwyr Llais Myfyrwyr

Athrofa Addysg a Dyniaethau

Abertawe

Louisa Smith
1703005@student.uwtsd.ac.uk

Caerfyrddin

Lauren Thomas
1908632@student.uwtsd.ac.uk

Llambled

Callum Childs
1601053@student.uwtsd.ac.uk

Athrofa Gwyddoniaeth a Chelf Cymru

Abertawe

Hannah Thomas
1704679@student.uwtsd.ac.uk

Caerdydd

Geraint Williams
1900751@Student.uwtsd.ac.uk

Athrofa Rheolaeth ac Iechyd

Abertawe

Michael Harvey
1803239@student.uwtsd.ac.uk

Birmingham

Samina Zia
1709440@student.uwtsd.ac.uk

Llundain

Nassaba Maomed
Guiba-Fernandes
1605896@student.uwtsd.ac.uk

Brifysgol

Hwb

Hwb

hwb.uwtsd.ac.uk
hwb@uwtsd.ac.uk

Gwasanaethau Myfyrwyr

Abertawe

01792 481206
student.services@uwtsd.ac.uk

Caerfyrddin

01267 676830
studentservices@uwtsd.ac.uk

Llambled

01570 424876
student.support@uwtsd.ac.uk

Llundain

020 756 67600
info.london@uwtsd.ac.uk

Pob ymholiad arall:

01267 676830
studentservices@uwtsd.ac.uk